**Cyfeirnod:** 5180A2025

**Dyddiad cyhoeddi:** Rhagfyr 2025

# Archwiliad o Asesiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru o berfformiad 2024-25

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) o'i berfformiad yn 2024-25 yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, credaf fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur a'i fod wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Cyfrifoldebau priodol yr Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad blynyddol sy'n disgrifio ei berfformiad:

- wrth gyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau;
- wrth gyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u gosod iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru, a dangosyddion perfformiad hunan-osodedig; ac
- wrth fodloni unrhyw safonau perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru, a safonau perfformiad hunan-osodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol ar ôl y flwyddyn y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn unrhyw ddyddiad arall o'r fath y gall Gweinidogion Cymru ei bennu drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd yr Awdurdod, mae'n ofynnol i mi o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur gynnal archwiliad i benderfynu a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, i ardystio fy mod wedi gwneud hynny, ac i adrodd a wyf yn credu bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a'r canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi ffurfio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb gwybodaeth. Gall gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur archwilio'r materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad perfformiad yr Awdurdod yn cynnwys adolygiad o gyhoeddiad yr Awdurdod i weld a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodwyd mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, a bod yr Awdurdod yn ystyried canllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi'r holl wendidau neu gyfleoedd ar gyfer gwella.



**Adrian Crompton**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

CC: Jane Bryant - Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol

Tim Buckle – Rheolwr Archwilio